4.124

# DIENYDDIAD

# MARY ASHFORD

## YN EXETER,

Mai y 3ydd, 1866,

## AM WENWYNO EI GWR.

---

### Ei chyfaddefiad ei hun.

---

Clywch holl wragedd glan y gwledydd
A'r merched cain sydd ar eich cynydd
Gynghor gwraig pan ar y grogbren,
Fydd cyn pen awr yn farw gelain.

X20522 0699

...wybrau rhinwedd,
...hod rhodio mewn anrhydedd,
Gwawdio'm tad pan fai'n cynghori,
Gwawdio mam a'i diystyru.

Gwrthod wnes Efengyl Iesu,
Fu mor dirion mewn tosturi
Arnai'n galw o lawr gelyn,
Finau'n ddiles wnes ei ddilyn.

Gwrando wnes ar dwyll-resymau
'R fall, a throi i'w ddyrus lwybrau,
Yno'n nghanol rhyfyg rhyfedd
Gwnes ddigymar fawr-ddrwg gamwedd

Gwedi rhedeg er fy ng'rwadwydd
Heb lywodraeth i anlladrwydd,
Fel nad oedd dim foddiai'r galon
Ond anonestrwydd gydag estron.

Magodd hyn ryw oerfelgarwch,
At fy nghwr oedd lawn careiddwch,

'R oeddwn gan fy
Fel angyles lan fy ngolwg.

Finau oeddwn ddrwg offeryn,
Calon galed yn llaw'r gelyn,
Mewn drwg fwriad yn myfyrio
Pa fodd y gallwn ei wenwyno.

Rhoddais iddo wenwyn marwol,
Yn ol cais a dyfais diafol,
Hwnw'n fuan aeth a'i fywyd,
'Nol fy anfad fwriad ynfyd.

Yn fy llwyddiant finau chwarddwn,
Ac o'r golwg hyn a gelwn,
Ond Duw ei hun a ddygai 'meiau
Rai dirgelaidd i dir goleu.

Nawr rhaid matw'n groes i mwriad,
Yn ananiserol, beth dal siarad,
'Rwyf fel Deifes yn edifar,
Ond Och mae'r waedd yn rhy ddiweddar

Yn fy rhyfyg y gwas dynu
Gwarth i'r wlad lle ces fy magu,
Gwarth i'm tylwyth, gwarth i'm teulu,
Ffryndiau agos wnaeth fy magu.

O bob gwarth mwy gwarthus gwrthod
Wedi'r camwedd rin y cymod,
Yn ddiobaith 'rwy'n wynebu,
Ddyn anrasol, frawdle'r Iesu.

HOELIONYDD PONTSENY